



**FDF Cymru**

Passionate about food and drink

**fdf** food & drink  
federation  
passionate about food & drink  
angerddol am fwyd a diod  
Cymru



**Food and drink  
manufacturing in  
Wales  
employs  
over  
23,000  
people**



**FDF Cymru is a part of the Food and Drink Federation (FDF) - the voice of UK food and drink manufacturers for over one hundred years. We are an independent, industry funded trade association, representing food and drink manufacturers from major global brands through to small, medium-sized and micro enterprises.**

Food and drink in Wales is an economic success story and now employs over 22,000 people in over 550 businesses across the country, with a turnover of £4.8bn a year.<sup>1</sup> But its significance goes far beyond money. Food and drink has become a vital part of Welsh national identity. As the industry faces its most significant challenges - and opportunities - for decades, the need for a strong, clear and influential voice for food and drink companies has never been greater.



**in over  
580  
businesses  
across the  
country**

**with a turnover of  
£4.8bn  
a year**



## FDF Cymru's Priorities

**01** As the sector the most impacted by Brexit, food and farming has much at stake in the negotiations. FDF Cymru is working hand-in-hand with counterparts in London, Edinburgh and Belfast, to make sure your voice is heard on the issues of the day – whether access to valued workforce, maintaining a stable regulatory regime or keeping trade as frictionless as possible.

**02** As we consider opportunities for trade in new markets overseas, it is vital that we champion the continued growth of Welsh food and drink and encourage more firms into exporting.

**03** Working in partnership with Welsh Government to tackle obesity through a holistic, evidence-based approach, with calorie reduction at its heart.

**04** Advising firms on the latest scientific and technical developments in food safety, authenticity and sustainability.

### Brexit: Wales' greatest challenge and opportunity

It is ever-clearer that the Westminster government intends to conduct the Brexit negotiations alone and will not allow the Welsh Government a direct seat at the table. With so much at stake, Welsh food and drink needs to be sure that it has the strongest possible voice in Westminster with ministers and officials.

FDF is the strategic partner of the Department for Environment, Food & Rural Affairs (Defra) in Brexit. As such, we represent not only FDF member companies but also convene, at Defra's request, a monthly 'round table' meeting of over fifty representative organisations from UK food and drink. Andy Richardson from the Food & Drink Wales Industry Board attends these meetings. FDF also enjoys excellent relations with the other key UK government departments: DExEU, HM Treasury, BEIS and DIT. We meet regularly with Ministers and officials to ensure that food and drink's case is strongly made.



## fdf Cymru – working in partnership on behalf of Welsh food and drink

fdf Cymru is working with politicians, civil servants, policymakers and commercial partners to highlight the challenges and opportunities facing food and drink manufacturing in Wales. We leverage our long-established, deep links and networks to provide industry's clear and authoritative voice to Government in Cardiff, Holyrood and Westminster.

fdf Cymru has been a proud sponsor of **TasteWales/BlasCymru**, and was delighted to sponsor the event again in March 2019.

The fdf Cymru team has met with **Welsh Government** officials and ministers, including Cabinet Secretary for Environment and Rural Affairs Lesley Griffiths AM, and the then Minister for Social Services and Public Health Rebecca Evans AM.

fdf Cymru participates in Welsh Government's monthly Trade and Supply Chain Working Group.

fdf Cymru works with key industry partners including David Lloyd, Director of the ZERO2FIVE Food Industry Centre at **Cardiff Metropolitan University**, and Andy Richardson, Chair of the **Food & Drink Wales Industry Board**.



“ *The Food and Drink Federation is a highly respected and influential organisation. I welcome their decision to be more active in Wales where food and drink is so critical to our success. It's important that Welsh food and drink businesses have a strong voice not just in Wales but across the whole UK and that's something I believe fdf can do extremely effectively.*

**Andy Richardson.** Chair, Food & Drink Wales Industry Board

fdf Cymru membership fees are based on turnover, contact us to find out how cost effective our membership is at [joinus@fdf.org.uk](mailto:joinus@fdf.org.uk)

For further information on fdf Cymru please go to [www.fdf.org.uk](http://www.fdf.org.uk) or speak to a member of our team at: [members.enquiries@fdf.org.uk](mailto:members.enquiries@fdf.org.uk)

**fdf** food & drink  
Cymru federation  
passionate about food & drink  
angerddol am twyd a diod






# FDF Cymru

Angerddol am fwyd a diod

**fdf** food & drink  
federation  
passionate about food & drink  
angerddol am fwyd a diod  
Cymru



**Cyflogir dros  
23,000  
o bobl yn y maes  
gweithgynhyrchu  
bwyd a diod yng  
Nghymru**

**Mae FDF Cymru yn rhan o'r Ffederasiwn Bwyd a Diod (FDF) - llais gweithgynhyrchwyr bwyd a diod ers dros gan mlynedd. Cymdeithas fasnach, annibynnol a ariennir gan ddiwydiant ydym, yn cynrychioli gweithgynhyrchwyr bwyd a diod, o frandiau mawr byd-eang trwodd i fentrau bychain, canolig a micro.**

Mae bwyd a diod yng Nghymru'n llwyddiant economaidd a bellach mae'n cyflogi dros 23,000 o bobl mewn dros 580 o fusnesau ar draws y wlad, gyda throsiant o £4.8bn y flwyddyn.<sup>1</sup> Ond mae ei arwyddocâd yn llawer mwy nag arian yn unig. Mae bwyd a diod wedi dod yn rhan hanfodol o hunaniaeth genedlaethol Cymru. Wrth i'r diwydiant wynebu ei heriau - a'i gyfleoedd - mwyaf arwyddocaol ers degawdau, nid oes erioed lais cryfach, cliriach a mwy dylanwadol wedi bod ei angen ar gwmnïau bwyd a diod nag yn awr.



**Mewn dros  
580 o  
fusnesau ar  
draws y wlad**

**Gyda throsiant o  
£4.8biliwn  
y flwyddyn**



# Blaenoriaethau FDF Cymru

**01** Fel y sector y caiff Brexit y mwyaf o effaith arno, mae gan fwyd a ffermio lawer yn y fantol o ran y trafodaethau. Mae FDF Cymru'n gweithio law yn llaw gyda'u cymheiriaid yn Llundain, Caeredin a Belfast, i wneud yn siwr y clywir eich llais ar faterion y dydd – boed yn fynediad at weithlu gwerthfawr, cynnal system reoleiddio, sefydlog neu gadw masnach mor llyfn â phosib.

**02** Wrth i ni ystyried cyfleoedd ar gyfer masnachu mewn marchnadoedd newydd dramor, mae'n hanfodol ein bod yn cefnogi'n frwd dwf parhaus bwyd a diod Cymru ac annog mwy o gwmnïau i allforio.

**03** Gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â gordewdra trwy weithredu'n gyfannol ac yn seiliedig ar dystiolaeth, gyda gostwng calorïau wrth galon hyn oll.


**04** Cynghori cwmnïau ar y datblygiadau gwyddonol a thechnegol diweddaraf mewn diogelwch, dilysrwydd a chynaliadwyedd bwyd.

## Brexit:

### Her - a chyfle - mwyaf Cymru

Daw'n gynyddol glir bod llywodraeth San Steffan yn bwriadu cynnal trafodaethau Brexit ar ei phen ei hun ac ni fydd yn caniatáu lle uniongyrchol i Lywodraeth Cymru wrth y bwrdd. Gyda chymaint yn y fantol, rhaid i fwyd a diod Cymru fod yn siŵr bod gweinidogion a swyddogion yn rhoi'r llais cryfaf posib iddo yn San Steffan.

FDF yw partner strategol Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) yn Brexit. Fel y cyfryw, nid yn unig yr ydym yn cynrychioli cwmnïau sy'n aelodau o'r FDF ond rydym hefyd yn cynnal, ar gais Defra, gyfarfod 'bord gron' yn fisol, lle daw dros hanner cant o gynrychiolwyr o sefydliadau bwyd a diod yn y DU ynghyd. Daw Andy Richardson o Fwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru i'r cyfarfodydd hyn. At hyn, mae gan FDF berthynas wych gydag adrannau allweddol eraill llywodraeth y DU: yr Adran dros Adael yr Undeb Ewropeaidd (DExEU), Trysorlys EM, yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) a'r Adran Diwydiant a Masnach. Byddwn yn cyfarfod â Gweinidogion a swyddogion yn rheolaidd i sicrhau y caiff achos cryf ei wneud dros fwyd a diod.



# fdf Cymru – gweithio mewn partneriaeth ar ran bwyd a diod Cymru

Gweithia fdf Cymru gyda gwleidyddion, gweision sifil, gwneuthurwyr polisïau a phartneriaid masnachol i amlgygu'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu gwaith gweithgynhyrchu bwyd a diod yng Nghymru. Manteisiwn ar ein rhwydweithiau a chysylltiadau dwfn, sydd wedi hen ennill eu plwyf, i fod yn llais clir ac awdurdodol diwydiant yn y Llywodraeth yng Nghaerdydd, Holyrood a San Steffan.

Mae fdf Cymru yn falch o noddi **BlasCymru**, ac roeddem wrth ein bodd yn cael cyfle i noddi'r digwyddiad unwaith eto ym mis Mawrth 2019.

Cyfarfu tîm fdf Cymru â swyddogion a gweinidogion **Llywodraeth Cymru'n** ddiweddar, gan gynnwys Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, Lesley Griffiths AC a'r Gweinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd Cyhoeddus bryd hynny, Rebecca Evans AC.

Mae fdf Cymru'n cymryd rhan yng Ngweithgor Cadwyn Cyflenwi a Masnach misol Llywodraeth Cymru.

Gweithia fdf Cymru gyda phartneriaid diwydiant allweddol, yn cynnwys David Lloyd, Cyfarwyddwr Canolfan Diwydiant Bwyd ZERO2FIVE ym **Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd** ac Andy Richardson, Cadeirydd **Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru**.



“ Mae'r Ffederasiwn Bwyd a Diod yn sefydliad sy'n uchel iawn ei barch ac yn ddylanwadol iawn. Rwyf yn croesawu eu penderfyniad i fod yn fwy gweithredol yng Nghymru lle mae bwyd a diod mor hanfodol i'w llwyddiant. Mae'n bwysig fod gan fusnesau bwyd a diod Cymru lais cryf nid yn unig yng Nghymru ond ar draws y Deyrnas Unedig i gyd. Credaf fod hynny'n rhywbeth y gall fdf ei wneud yn eithriadol o effeithiol.

**Andy Richardson.** Cadeirydd, Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru

Mae ffioedd aelodaeth fdf Cymru yn seiliedig ar drosiant. Cysylltwch â ni i gael gwybod pa mor gost effeithiol yw ein ffioedd aelodaeth [joinus@fdf.org.uk](mailto:joinus@fdf.org.uk)

Am ragor o wybodaeth am fdf Cymru, ewch i [www.fdf.org.uk](http://www.fdf.org.uk) neu siaradwch ag aelod o'n tîm yn: [members.enquiries@fdf.org.uk](mailto:members.enquiries@fdf.org.uk)

**fdf** food & drink  
federation  
passionate about food & drink  
angerddol am fwyd a diod  
Cymru